**COFNODION ARBENNIG PWYLLGOR Y TY**

Dyddiad: 2 Ebrill 2003

Amser: 10.00am

Lleoliad: Ystafell Gynadledda B

Yn bresennol: **Aelodau:**
Y Dirprwy Lywydd (Cadeirydd)
Y Llywydd
Eleanor Burnham, AC Democratiaid Rhyddfrydol
William Graham, AC Ceidwadwyr
Carwyn Jones, AC Llafur
Elin Jones, AC Plaid Cymru

**Swyddogion:**
Paul Silk, Clerc y Cynulliad
Dianne Bevan, Clerc Pwyllgor y Ty
Gwen Parry, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfathrebu
Nerys Evans, Ysgrifenyddiaeth Pwyllgor y Ty
Sara Lloyd, Ysgrifenyddiaeth Pwyllgor y Ty
Catherine Morris, Ysgrifennydd Preifat y Dirprwy Lywydd
Marie Knox, Pennaeth Gwasanaethau Ymchwil yr Aelodau a'r Pwyllgorau (rhan o'r cyfarfod)
Debra Carter, Pennaeth Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau (rhan o'r cyfarfod)

**Yn bresennol:**
Glenn Vaughan, Cyfarwyddwr Canolfan Ewropeaidd Cymru (rhan o'r cyfarfod)

**Ymddiheuriadau:**
Peter Black, AC Democratiaid Rhyddfrydol
Janice Gregory, AC Llafur
John Bowley, Cyfarwyddwr yr Is-adran Gwasanaethau Corfforaethol
Peter Jones, Cwnsler Pwyllgorau'r Cynulliad

Cododd y Cadeirydd bwynt ynghylch gwelliant a gafwyd oddi wrth Jocelyn Davies i gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Mawrth 2003. Cytunodd yr Aelodau i ddiwygio'r cofnodion yn unol â hynny.

Estynnodd y Cadeirydd groeso i Glenn Vaughan, Cyfarwyddwr Canolfan Ewropeaidd Cymru, a diolchodd iddo am fynychu'r cyfarfod.

**1. <u>Presenoldeb Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mrwsel</u>** <u>HC-03-03-01</u>

Amlinellodd Glenn Vaughan y gwasanaethau y gallai

Canolfan Ewropeaidd Cymru eu darparu i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, ac atebodd gwestiynau'r Aelodau. Gadawodd Mr Vaughan y cyfarfod.

Cytunodd yr Aelodau mai'r opsiwn oedd orau ganddynt fyddai cael aelod staff o fewn tîm Canolfan Ewropeaidd Cymru yn gweithio'n unswydd ar gyfer Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Byddai contract yn cael ei lunio i fanylu ar y gwasanaethau y byddai'r Cynulliad eu hangen. Byddai Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau a'r Pwyllgorau yn rheoli'r contract ac yn cydlynu ceisiadau am ddefnyddio'r gwasanaethau, gan gynnwys llunio canllawiau ar flaenoriaethu pan fyddai cystadleuaeth am y ddarpariaeth.

Byddai angen i gost y gwasanaeth adewyrchu sgiliau a phrofiad y swyddog a gâi ei recriwtio i'r swydd, yn ogystal ag unrhyw gostau ategol.

Cytunodd yr Aelodau y gallai swyddogion gytuno ar gontract gyda Chanolfan Ewropeaidd Cymru a'i gwblhau, cyhyd ag y bod safonau clir ar y gwasanaeth a gâi ei ddarparu, a bod y contract yn cydymffurfio â gweithdrefnau'r broses gaffael. Byddai'r swyddogion yn sicrhau cymaint o hyblygrwydd â phosibl i'r Cynulliad o ran hyd y contract. **Marie Knox**

**Gweithredu: Marie Knox**

Diolchodd y Cadeirydd i Marie Knox a Debra Carter am fynychu'r cyfarfod.

**2. <u>Gwelliannau i Ystafell y Siambr</u>** <u>HC-03-03-02</u>

Cytunodd yr Aelodau fod yn rhaid gosod sgriniau diogelwch yn y Siambr er mwyn atal protestwyr rhag cyrraedd atynt o oriel y cyhoedd, a oedd wedi digwydd ddwywaith yn y gorffennol.

Gofynnodd yr Aelodau am ddefnyddio cyn lleied o fariau â phosibl o gwmpas y sgriniau gwydr, heb i hynny arwain at ormod o gynnydd yn y pris. **Nerys Evans**

Cytunodd yr Aelodau i ailosod y camera sydd wrth gefn oriel y cyhoedd i gefn y Siambr, yn unol ag argymhelliad y darlledwyr.

**Gweithredu: Nerys Evans**

3. **Ymgynghori ar Ddarlledu** HC-03-03-03

Cytunodd yr Aelodau i adeiladu ystafell reoli newydd yn adeilad y Cynulliad er mwyn cynorthwyo'r gwaith o darlledu o Siambr ac ystafelloedd pwyllgora newydd y Cynulliad, ac er mwyn cadw cyfleusterau darlledu'r adeilad presennol. **Gwen Parry**

**Gweithredu: Gwen Parry**

4. **Swyddog Celf ar gyfer yr Adeilad Newydd** HC-03-03-04

Cymeradwyodd yr Aelodau gomisiynu Swyddog Celf, a chytuno i dalu unrhyw wariant cysylltiedig. Byddai'r Swyddog Celf yn cydweithio mewn partneriaeth â Phanel Ymgynghorol Celf Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn enwi a chynorthwyo artistiaid ar gyfer proseict adeilad newydd y Cynulliad. Gofynnodd yr Aelodau fod yr Is-grwp Celf yn cael gwybod am hynt y gwaith hwn. **Gwen Parry**

**Gweithredu: Gwen Parry**

5. **Gwefannau Aelodau'r Cynulliad - Dolenni o Wefan Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

Cytunodd yr Aelodau y dylid dileu'r dolenni uniongyrchol o wefan Cynulliad Cenedlaethol Cymru i wefannau Aelodau unigol yn ystod toriad y Pasg, ar gyngor y Comisiwn Etholiadol. Byddai'r dolenni'n cael eu hail-gydio yn dilyn yr etholiad.

6. **Y Newyddion Diweddaraf am Brosiect Merlin**

Dywedodd Diane Bevan wrth yr Aelodau fod Cyfnod Astudio rhaglen Merlin bellach wedi dod i ben. Byddai dau gyflenwr posibl yn dechrau trafodaethau ar gontract gyda'r Cynulliad fel rhan o gam nesaf y broses gaffael. Gan bod y canlyniad ar hyn o bryd yn fasnachol sensitif, dewisodd yr Aelodau beidio â chlywed pwy oedd y ddau gyflenwr posibl.

7. **Y Seremoni Agoriadol - y Derbyniad** HC-03-03-05

Cytunodd yr Aelodau mai yng Ngwesty a Spa Dewi Sant y dylid cynnal y derbyniad amser cinio yn dilyn agoriad Brenhinol y Cynulliad newydd. Penderfynwyd hyn am nad oes ystafell digon mawr yn adeilad y Cynulliad i gynnwys y gwesteion i gyd, ac mae agosrwydd Gwesty a Spa Dewi Sant yn golygu ei fod yn addas ar gyfer yr achlysur. **Gwen Parry**

**Gweithredu: Gwen Parry**

**8. Unrhyw Fater Arall**

Diolchodd y Cadeirydd i Aelodau a swyddogion y Pwyllgor am eu cymorth i Bwyllgor y Ty yn ystod y pedair blynedd diwethaf.

**Dyddiad y cyfarfod nesaf:** i'w gyhoeddi **Ysgrifeny-ddiaeth**

**Ysgrifenyddiaeth Pwyllgor y Ty**